Chwilio am Bartner – Nodyn Briffio

Paratowyd y nodyn hwn yn sail i **chwilio am bartneriaid rhyngwladol posibl** i Bartneriaeth Biosffer Dyfi yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n cael ei gyfeirio at gyrff cysylltiedig yng Nghymru, rhwydwaith UNESCO MAB ac unrhyw weinyddwyr Biosffer sydd â diddordeb, yn enwedig ar gyfandir Ewrop. Byddai'r Bartneriaeth yn falch o ystyried awgrymiadau am gyfnewidiadau rhyngwladol tebyg i'r hyn a nodir isod.

Ar hyn o bryd Biosffer Dyfi yw'r **unig un yng Nghymru**. Yn awr, nid yw'n cynnwys ond ardaloedd a warchodir (Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, sy'n cynnwys Ynyslas, Cors Fochno a'r aber o Aberdyfi i fyny at Gyffordd Dyfi yn bennaf). Ar rai hen fapiau mae Afon Dyfi wedi'i sillafu yn Dovey. Mae cynlluniau arfaethedig ar gyfer creu biosffer 'fodern' wedi'i seilio ar y meini prawf a luniwyd gan UNESCO yn Seville yn 1995 ac yn golygu ymestyn yr ardal trwy greu ardal bontio.

Diffiniad yr ardal ehangach a'i rhanbarthu yw dau o'r cwestiynau a roddwyd gerbron trigolion, busnesau ac awdurdodau lleol yn ystod proses ddwys o gyfathrebu â'r gymuned. Yn wir, mae'r mater o ofyn i UNESCO gadarnhau'r ardal yn ôl meini prawf Seville yn cael ei osod gerbron y gymuned.

Yn ganolbwynt i'r ardal ehangach arfaethedig mae tref hanesyddol **Machynlleth,** gyda rhyw 70 siopau, stad ddiwydiannol a 'pharc eco' sy'n prysur ehangu ar gyfer busnesau amgylcheddol. Mae'r **prif anheddau** yn Nyffryn Dyfi'n cynnwys pentrefi gwledig megis Llanbrynmair, Dinas Mawddwy, Talybont a Chorris yn ogystal â threfi bychain glan môr Aberdyfi a Borth. I'r de mae tref prifysgol Aberystwyth, sy'n ganolfan ddiwylliannol Gymreig o bwys.

Defnyddir yr **Iaith Gymraeg** yn eang yn y gymuned ac mae'n ffynhonnell o falchder lleol a hunaniaeth sylweddol. Mae Partneriaeth y Biosffer ei hun yn gweithio'n ddwyieithog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r ardal wedi derbyn mewnlifiad o Saeson, llawer ohonynt yn cael eu denu gan y ffordd 'werdd' o fyw a gysylltir gyda Chanolfan y Dechnoleg Amgen ychydig i'r gogledd o Fachynlleth, sydd wedi cael cymaint o lwyddiant.

Mae'r **broses o ail-ddynodi** yn cael ei chydlynu gan bartneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol, sefydliadau amaethyddol, grŵp cymunedol a diddordebau eraill. Mae'n cael ei harwain a'i hariannu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, sefydliad cenedlaethol sy'n atebol i Lywodraeth Cymru. Y gobaith yw y bydd cyflwyniad drafft y Bartneriaeth yn barod erbyn gaeaf 2007, i'w anfon ymlaen i UNESCO MAB ar gyfer ei gyfarfod haf 2008.

Gellir cael gwybodaeth lawn am yr ardal, ei hecoleg, ei thirwedd, ei heconomi, ein haelodaeth leol a'r broses cyfathrebu â'r gymuned ar wefannau Biosffer Dyfi ac **ecodyfi**, sefydliad adfywio Bro Ddyfi, sy'n gwasanaethu Partneriaeth y Biosffer.

Fel bod unrhyw gysylltiadau rhyngwladol yn berthnasol ac yn ymarferol i'r ddwy ochr teimlem y gallai unrhyw bartneriaethau biosffer posibl rannu **rhai nodweddion allweddol** â'n cymuned ni yn nhermau e.e. lleoliad (tymherus, arfordirol), graddfa (ardal, poblogaeth),amaethyddiaeth (bugeiliol: defaid, gwartheg stôr), syniad cryf o hunaniaeth, diwylliant dwyieithog, twristiaeth lefel isel, sector amgylcheddol ddatblygedig iawn a/neu sefydliad /addysg uwch/ymchwil cyfagos.

Gan ddibynnu ar y lefel y diddordeb a fynegir ar y naill ochr a'r llall byddem yn rhagweld defnyddio'r **dulliau cyfathrebu** canlynol:

- cyfnewid e-byst (wedi'u cyfieithu?) dechreuol ac ymgysylltiadau addas ar gyfer eu trawsyrru i rai aelodau partneriaeth a rhai cysylltiol
- cyfnewid dogfennau – adroddiadau, mapiau a phamffledi twristiaeth er enghraifft, a allai gael eu defnyddio fel sail i arddangosfeydd bychain lleol
- cyswllt fideo dechreuol - er ein bod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r dull hwn
- gwahoddiadau posibl i siaradwyr gwadd arbenigol i'n hardal
- astudiaeth o ymweliadau cyfnewidiol gan aelodau'r bartneriaeth neu grwpiau thematig

Yn y **tymor byr** byddai gennym ddiddordeb mewn rhannu gwybodaeth a phrofiadau gyda sefydliadau Biosffer sydd wedi cwblhau eu proses ail-ddynodi o feini prawf bioamrywiaeth pur i feini prawf Seville, efallai ar faterion megis:

- gweithgareddau a dulliau llwyddiannus o gyfathrebu â'r gymuned
- cydbwyso/cymodi/datrys gwrthdaro rhwng grwpiau cystadleuol â diddordeb
- cynnal y momentwm rhwng y cais a (gobeithio) y derbyniad
- cynllunio fframwaith rheoli neu strwythur corfforaethol
- chwilio am gydbwysedd rhwng diddordebau lleol a sefydliadau allanol
- lefelau staffio, cyfrifoldebau ac ariannu

Yn y **tymor canolig** ein diddordeb fyddai rhannu profiad mewn datblygu prosiectau ymchwil a/neu 'economïau o ansawdd' yn y sectorau canlynol:

- amaethyddiaeth fugeiliol ac arallgyfeirio, garddwriaeth ar raddfa fechan, coedwigaeth
- gweithgaredd / twristiaeth ddiwylliannol gynaliadwy / sensitif
- cynnyrch, gwasanaethau, addysg a hyfforddiant amgylcheddol
- diwylliant, iaith, cyfryngau a/neu argraffu mewn cyd-destun dwyieithog
- celfyddydau: gweledol, llenyddol, perfformio, cyfranogol

Yn y **tymor hwy** ein diddordeb fyddai datblygu prosiectau dewisol ar y cyd mewn rhai o'r sectorau uchod, yn ddibynnol ar arian gan ffynonellau cenedlaethol, Ewropeaidd neu ryngwladol. Gallai sefydliadau Biosffer eu hunain weithredu'r rhain neu gallai cyrff cysylltiedig megis asiantaethau menter a sefydliadau academaidd neu ymchwil wneud hynny. Er na fyddem yn awyddus i fod yn rhy benodol, gallent er enghraifft gynnwys:

- ymchwil mewn gwyddoniaeth gymdeithasol neu fiolegol
- datblygu economaidd a chymunedol
- mentrau newydd mewn addysg amgylcheddol
- prosiectau ar y cyd yn y sectorau diwylliannol neu ieithyddol
- arloesi mewn marchnata twristiaeth
- cyfnewidiadau rhwng ysgolion a grwpiau ieuenctid

Byddem yn croesawu syniadau oddi wrth eraill yn ddiffuant iawn.

Dylid anfon unrhyw ddangosiad o ddiddordeb neu awgrymiadau ar gyfer ymchwilio i gyfnewidiadau yn ôl y syniadau a hyrwyddir uchod gael eu hanfon at andy.rowland@ecodyfi.org.uk

Gwelir ar wefan y Biosffer www.dyfibiosphere.org.uk ein bod wedi derbyn cyngor yn barod ac wedi sefydlu cyswllt gyda Gwarchodfeydd Biosffer Entlebuch a'r Rhôn.

Mae nifer o aelodau'r Bartneriaeth wedi mynegi diddordeb mewn cysylltu â Gwarchodfa Biosffer Urdaibai ger Gernika yng Ngwlad y Basg yng Ngogledd Sbaen, ac rydym wedi cyfnewid e-byst gydag un aelod o'u staff fel man cychwyn. Y bwriad yw parhau â'r cyswllt hwn yn fwy manwl wedi inni gael mwy o ymateb i'r nodyn hwn.

Ebrill 2007

Partneriaeth Biosffer Dyfi
c/o ecodyfi
Tŷ Bro Ddyfi
52 Heol Maengwyn
Machynlleth
Powys, Cymru, UK
SY20 8DT

0(44) 1654 703965